

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL A MISOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN A GYNHALIWYD AR ZOOM, nos Fercher, Mawrth 10fed, 2021 am saith o'r gloch

PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Cadeirydd); G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Angharad Correia-Martins, Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, Carys Hughes, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams; Cyngorwyr Dewi W. Roberts a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd – Sylwedyddion)

YMDDIHEURIADAU

Alun Jones, John Gwilym Jones – methodd y ddau â chysylltu oherwydd trafferthion technolegol

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cydymdeimlwyd â'r Cyng. Erfyl W. Roberts ar golli ei fam ers ein cyfarfod diwethaf.

COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL

1. ENWEBU CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

Oherwydd y sefyllfa bresennol o ran y pandemig, bodlonodd y Cyngorwyr O. Hefin Roberts (Ward Aber-soch) a G. Ian Evans (Ward Llanengan) barhau fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd am y flwyddyn gyfredol – diolchwyd i'r ddau am hynny. Gobeithir, y bydd yn haws cynnal Cyfarfod Blynyddol arferol ym mis Mai. O ganlyniad, enwebwyd Cyng. G. Ian Evans yn Gadeirydd a'r Cyng. Edward O. Griffith (Ward Llangian) yn Is-gadeirydd ar gyfer 2021 – 2022.

2. ENWEBIADAU IS-BWYLLGORAU

Enwebwyd yr aelodau a ganlyn ar yr Is-bwyllgorau:

- **Ariannol** – Cadeirydd, Is-gadeirydd, Edward O. Griffith, John Gwilym Jones, Robert M. Jones a'r Clerc
- **Caeau Chwarae** – Cadeirydd, Is-gadeirydd, Wyn Griffith, Carys Hughes, Erfyl W. Roberts a'r Clerc
- **Cynllunio** – Cadeirydd, Is-gadeirydd, aelod o bob Ward (tri) a'r Clerc [Derbynia pawb sydd â chyfrifiadur gopi o'r ceisiadau drwy e-bost erbyn hyn, gan na ddanfonir hwy trwy'r post oherwydd y sefyllfa bresennol.]
- **Llwybrau** – Cadeirydd, Is-gadeirydd, Angharad Correia-Martins, Wyn Griffith, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones a'r Clerc
- **Mynwent** – Cadeirydd, Is-gadeirydd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams a'r Clerc.

3. **ADOLYGU A MABWYSIADU'R RHEOLAU SEFYDLOG**

Derbyniwyd y Rheolau Sefydlog.

4. **ADOLYGU A MABWYSIADU'R RHEOLAU ARIANNOL**

Derbyniwyd y Rheolau Ariannol.

5. **ADOLYGU ASESIADAU RISG, ARCHWILIAD MEWNOL Y CYNGOR A'R GOFRESTR ASEDAU**

Derbyniwyd yr adolygiad a'r archwiliad ac fe'u harwyddir gan y Cadeirydd a'r Clerc pan ganiateir hynny dan reoliadau Covid.

6. **POLISIÂU**

Adolygwyd a derbyniwyd y polisiau.

7. **DYDDIADAU CYFARFODYDD 2020 – 2021**

Anfonwyd copi o'r dyddiadau at yr aelodau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol bresennol.

8. **CWPAN Y CADEIRYDD**

Derbyniwyd e-bost oddi wrth Cyng. Dewi Wyn Roberts, Aelod Lleol Ward Aber-soch, yn diolch am gael ei enwebu am y gwpan – syrpreis hyfryd. Fe'i cyflwynwyd iddo am y gwaith clodwiw a wnaeth yn ystod y clo cyntaf pan ddanfonodd negeseuon ac ati i'r trigolion a oedd yn hunanynysu. Ychwanegodd y Clerc, y dymunai ddiolch iddo hefyd, gan y teimla'n euog na allodd gydlynu trefniant cymunedol fel sawl cymuned arall yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd ei gofynion teuluol.

COFNODION Y CYFARFOD MISOL

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Ariannol a a gynhaliwyd ar Chwefror 9fed a chyfarfod misol y Cyngor ar Chwefror 10fed, 2021 yn gywir.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Nid oedd dim i'w drafod.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

Anfonwyd sylwadau ar y ddau gais cyntaf cyn y cyfarfod.

- C21/0136/39/DT Gosod ffenestr ddormer – Gwelfryn, Lôn Garmon, Aber-soch – **Cefnogir**
- C21/0137/39/CT Torri coeden draenen wen o fewn ardal gadwraeth – Minffordd, Llanengan – **Cefnogir**
- C21/0140/39/LL Cais i godi bar caffi ar ran o gwrth blaen y busnes Land and Sea presennol, gan gynnwys cael gwared ar y pypmiau petrol presennol a newid defnydd y rhan honno o'r cwrt blaen a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer gwerthu cychod a gorsaf lenwi i Ddosbarth Defnydd A3 – Abersoch Land & Sea, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – **Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn safle llawer rhy beryglus â mynedfa ar gyffordd brysur Lôn Garmon, ble mae dau fwyty (un yn tecawê felly mae mynd a dod parhaus yno a diffyg lle parcio), a Lôn Pont Morgan, yn ogystal â ffordd fynedfa at Dai Dyffryn a Chongl Feddw, heibio'r prif fusnes. Nid yw alcohol a gyrru'n cyd-fynd a dyna mae'r cais yma'n ei annog – pryderir am hyn oherwydd gwerthir cymaint o gychod cyflym a beiciau dŵr, ynghyd â rhai ar olwynion gan yr ymgeisydd. Mynegwyd pryder am y bwriad o osod tanciau tanwydd uwchben y ddaear pe gwaredir y rhai tanddaear presennol. Fel arall, byddai rhaid prynu tanwydd i'r cychod ym Mhwllheli neu Lanbedrog, gan y gallent greu tagfeydd traffig dirfawr pe deuent i'r modurdy yng nghanol pentref Aber-soch, ynghyd â chreu mwy o lygredd wrth deithio. Ni chynhwysa'r cais fesuriadau uchder yr adeilad a allasai, o ganlyniad, amharu ar olwg trafniadaeth o Aber-soch o'r tractorau a ddefnyddia'r fynedfa bellaf sydd gyferbyn â'r ffordd i draeth Min y Don – adroddwyd mai honno yw'r un 'swyddogol'. Hefyd, mae mynedfa Afallon (tŷ drws nesaf) ger honno. Yn ogystal, byddai sŵn ac ysbwriel yn amharu ar dai eraill gerllaw. Nid yw'r dyluniad yn gweddu â'r ardal yng nghanol tai preswyl ychwaith. Syndod yw darllen ym mhwynt 4.28 y Datganiad Cynllun, Dyluniad a Mynediad ei fod yn beth da lleoli'r adeilad ger y briffordd. Pryderir hefyd am y lleoliad oherwydd llifogydd – nepell o'r harbwr mewnol a'r môr. Mynegwyd siomedigaeth yn yr enw bwriadedig – *Aprés Soleil* – nid oes dim yn Gymreig na Chymraeg ynddo. O ganlyniad, anghytunir â'r hyn a nodir ym mhwyntiau 4.5 a 4.13 a chredir na roddwyd ystyriaeth deg i'r iaith Gymraeg. Yn sicr, ni fydd yn 'ategu a chyfoethogi cymeriad a golwg y safle' fel nodir ym maen prawf cyntaf pwynt 4.32.**
- C21/0176/39/AC Cais ar gyfer newid Amodau 2 a 3 o Ganiatâd Cynllunio C19/1162/39/LL er mwyn diwygio dyluniad a gosodiad yr adeilad a deunyddiau to a gwaredu Amod 5 yn ymwneud â sgrin preifatrwydd gan na chynhwysir balconïau allanol fel rhan o'r cynllun diwygiedig – Bryn Benar, Lôn Pen Cei, Aber-soch – **Cefnogir**
- C21/0184/39/LL Dymchwel eiddo preswyl ar wahân presennol a chodi eiddo preswyl newydd – Glenwyn, Sarn Bach – **Cefnogir**
- C20/0178/39/LL Toiledau a chawodydd newydd at ddefnydd safle carafanau – Nant, Lôn Coed y Fron, Mynytho – **Cefnogir**
- C21/0193/39/TC Cais am Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon ar gyfer gosod carafán er defnydd mewn perthynas ag annedd bresennol yn unig – Felin,

Aber-soch – **Gwrthwynebir oherwydd nad yw'n rhan o'r cwrtil, h.y. mae ar lain o dir gyferbyn â'r tŷ sydd â chaeau/ochrau gwyllt o boptu iddo tu allan i'r ffin ddatblygu. Hefyd, mae'r ffordd sydd rhyngddynt yn rhan o Lwybr Cyhoeddus Rhif 42/Llwybr yr Arfordir. Gallai, maes o law, gael ei droi'n 'gartref parhaol newydd yn y wlad'. Nid oes man parcio ar ei gyfer â'r ffordd yn gul a gwael pe bai angen y gwasanaethau brys. Onid oes rhaid i 'adeilad' fod ar safle yn barod i ymgeisio am Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon?**

C21/0196/39/DT Estyniad deulawr – Pentraeth Cottage, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – **Cefnogir**

C21/0202/39/DT Estyniadau ac addasiadau i dŷ preswyl – Angorau, 9 Lôn Tŷ Gwyn, Aber-soch – **Cefnogir**

Gadawodd Cyng. John B. Hughes (Aelod Lleol) y cyfarfod ar ôl trafod y ceisiadau cynllunio.

5. MATERION YN CODI

- a) **12. Ysgol Aber-soch**
Deallwyd yr anfonwyd o leiaf 141 o lythyrau'n gwrthwynebu'r bwriad o gau'r uchod.
- b) **15. Cynnig Cyng. Erfyl W. Roberts**
Derbyniodd Ysgol Botwnnog y cyfrifiaduron ond, nid yr anfoneb; gobeithir ei derbyn yn fuan er mwyn iddi gael ei thalu cyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- c) **16. Gohebiaeth: a) Cydlynnydd Partneriaethau Natur Lleol Gwynedd – Tir Mynytho**
Derbyniwyd gohebiaeth y gobeithia'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol dorri'r darn 'melyn', sef yr un islaw'r cae chwarae ar y cynllun â'r peiriant Rytech yr wythnos nesaf. Awgrymwyd y gellid gwaredu'r toriadau yng Nglanllynau, Chwilog, neu ar ffermydd yr Ymddiriedolaeth ei hun.
- ch) **15. Gohebiaeth: b) Ail-lenwi Cymru**
Ni wnaed dim pellach â'r uchod.
- d) **15. Gohebiaeth: ch) Anna E. Jones – Grisïau ar Lôn Pont Morgan**
Ni wnaed dim pellach â chysylltu â'r Gofrestrfa Tir parthed chwilio am berchnogaeth yr uchod.
- dd) **Ciosg BT Stryd Fawr, Aber-soch – Diffribiliwr**
Er cysylltu eto, ni waredwyd yr offer hyd yma.

6. TOILEDAU

- a) **Cyflenwad Trydan Toiledau Lôn Traeth**
Ni lwyddwyd cysylltu ag E-on i ofyn am ailgysylltu cytundeb trydan y toiledau.
- b) **Healthmatic Ltd. – System Talu Digiwwrdd**
Derbyniwyd manylion ac amcanbris am y talu digiwwrdd – £3600.00 + TAW, ynghyd â £10.00 y mis i'w ddefnyddio (mae'r cwmni cyflenwi'n codi 2.95% o werth cyfanswm trafodion yn ogystal) a weithia o gerdyn SIM. Awgrymwyd y buasai'n ymarferol cael y ddau, h.y. taliad arian a digiwwrdd er mwyn cymharu os yw'n ariannol hyfyw. Bu trafferthion â chloeon y drysau eto ac adroddwyd bod gwaith

gwario arnynt. Awgrymodd Cyng. John B. Hughes efallai y gellid ymgeisio am nawdd o Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn i'w hatgyweirio a phrynu/gosod y system newydd; penderfynwyd cyflwyno cais.

7. MYNWENT Y BWLCH

- a) **Arwyddion Ysbwriel**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth yr Henaduriaeth. Cysylltir eto, gan ychwanegu y bydd rhaid cael rhywun i dorri'r gwellt o ganlyniad i'r cytundeb dwy flynedd a ariannwyd â gweddill Cyfrif Mynwent Capel y Bwlch ym mis Hydref y llynedd. Adroddwyd y tynnwyd yr arwydd gofyn i bawb fynd â'r blodau marw ac ati gartref oddi ar y giataiu.

8. CAEAU CHWARAE

- a) **Grant Chwarae ar gyfer Parciau Chwarae Llywodraeth Cymru**
Ailosodwyd y goliau a derbyniwyd anfoneb am y gwaith – gweler 16. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod. Diolchwyd i'r Cynghorwyr Robert M. Jones ac Wyn Griffiths am gynorthwyo'r contractwr eu gosod. Ychwanegwyd bod angen gosod y fainc newydd hefyd. Derbyniwyd amcanbris o £2250.00 + TAW i baentio llinellau ffordd ar drac beicio Mynytho â phaent polywrethan oddi wrth Caloo (yr un gorau ar gyfer wyneb SUDS); penderfynwyd gofyn i rywun lleol eu paentio.
- b) **Archwiliad Iechyd a Diogelwch**
Archwilir y ddau gae ar Ebrill 27ain.

9. MATERION CYLLIDOL

- a) **Meinciau Solar**
Hysbysodd Alys Lloyd Jones na dderbyniodd Cyngor Gwynedd gadarnhad os bu'n llwyddiannus am Grant Canol Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer gosod dwy fainc solar yng nghanol Aber-soch – buasai angen cwblhau'r cynllun cyn Mawrth 31ain – cais trwy'r Aelod Lleol oedd hwn.
- b) **Adolygu Fframwaith Taliadau Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref**
Gwahoddiad i gymryd rhan yn yr adolygiad – i'w gwblhau erbyn dechrau'r hydref fel y gellir cynnwys unrhyw newidiadau yn Adroddiad Blynyddol 2022 – 2023; dônt i rym yn dilyn yr etholiadau i gynghorau ym mis Mai 2022.
- c) **Cyfrifon 2020 – 2021 (Llif Arian, Incwm a Gwariant, Asesiad Risg ac Arbrawf Rheolaeth Ariannol Fewnol)**
Anfonwyd copi at bawb. Disgwylir datganiad banc i gwblhau'r cyfrifon. Derbyniwyd y gweithredwyd yr Asesiad Risg a'r Arbrawf Rheolaeth Ariannol Fewnol yn gywir – arwyddir hwy pan fydd canllawiau'n caniatáu.
- ch) **Cyfraniadau**
Derbyniwyd llythyrau diolch oddi wrth bron bawb erbyn hyn.
- d) **Cytundeb Toiledau Cyhoeddus**
Derbyniwyd llythyr yn hysbysu nad anfonir cytundeb o'r newydd yn flynyddol gan nad oes newid i'r un presennol – anfonebir ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

10. **MATERION CYNLLUNIO**

- a) **Apêl 266 Cae Du, Aber-soch**
Anfonwyd sylwadau'r Cyngor eisoes.
- b) **Gorfodaeth (Amrywiol)**
Ni dderbyniwyd ymateb i'r pum ymholiad arall. Anfonwyd lluniau ychwanegol o'r deunyddiau a'r cytiau a osodwyd yn y cae gyferbyn â mynedfa Ystâd Lôn Cernyw, Bwlchtocyn – un o'r pump y gohebwyd amdano.
- c) **Cymorth Cynllunio Cymru – Chwalu Dirgelwch Cynllunio**
Copi o hysbysiad o gwrs ar-lein, 'Cynllunio: O'r Dechrau i'r Diwedd', yn benodol ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Ei gost yw £150.00 ar gyfer yr holl gynghorwyr; rhywbeth i'w ystyried pan fydd angen i bob cynghorydd dderbyn hyfforddiant gorfodol.

11. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

- a) **Cau Ffyrdd**
Derbyniwyd copi o Rybudd yn hysbysu y caeid ffyrdd:
 - i) Dosbarth III o'r gyffordd â Bryn Llewelyn i Nant Rhiwdar, Mynytho, ar Fawrth 8fed
 - ii) Capel Nant Saethon, Mynytho, ar Fawrth 9fed.
- b) **Biniau Halen**
Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Beiriannydd Ardal Dwyfor am y camddealltwriaeth o ran y bin ger Tŷ Hir, Mynytho. Fe'i dychwelwyd erbyn hyn ar ôl i'r Adran ddeall y cadarnhaodd y Cyngor barhau â'r cynllun ym mis Medi 2018; ni hysbyswyd Swyddfa Pwllheli o'r cadarnhad gan Swyddfa Caernarfon.

12. **MATERION HAWLIAU TRAMWY**

- a) **Ail-gategoreiddio'r Llwybrau ar gyfer Hysbysebu Tendr 2021**
Atebodd yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy y bu'n prysur geisio cwblhau prosiectau cyn iddo orfod hunanynysu ar gyfer triniaeth lawfeddygol ar Ebrill 8fed. Gobeithia gysylltu eto yn ystod y cyfnod hwnnw.

13. **TRAETHAU**

- a) **Newidiadau ym Marchros**
Mynegwyd syndod y gosodwyd caban plastig gwyn ar gyfer casglu arian Swyddogion y Traethau – nid yw'n gweddu dim ag AHNE; derbyniwyd cwynion amdano hefyd. Deallwyd y gosodwyd arwyddion mai parcio preifat sydd i'r chwith hefyd; penderfynwyd y dylid ysgrifennu i fynegi siomedigaeth a phryder am y caban, arwyddion a'r diffyg ymgynghori.

14. **ARWYDDBYST PREN**

Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth Sioned Mair Williams, yr arlunydd/cynllunydd.

15. **GOHEBIAETH**

- a) **Un Llais Cymru (ULIC)**
- i) ***Bwletin mis Chwefror***
Sonnir am ymgynghoriad ar Ganllawiau Drafft Newydd ar y Cod Ymddygiad ddaw i ben ar Fawrth 21ain.
 - ii) ***Hyfforddiant mis Mawrth***
Gwybodaeth am yr uchod.
 - iii) ***Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040***
Gwybodaeth am yr uchod a gyhoeddwyd ar Chwefror 24ain. Cyhoeddir Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 i gyd-fynd hefyd.
 - iv) ***Ymgynghoriad ar Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i Gymru***
Daw i ben ar Ebrill 22ain. Gofynna ULIC am sylwadau'r Cyngor iddo gyflwyno ymateb ar ran yr holl gynghorau.
 - v) ***Erthygl 'Graddfeydd Llog Isel'***
Copi, er gwybodaeth.
 - vi) ***Gwahoddiad Gweminar – Adroddiad Ailgartrefi: Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru, Dr. Simon Brookes***
Mynychodd CH a'r Clerc y cyfarfod ac roedd yn un buddiol iawn. Adroddodd Cyng. Dewi W. Roberts y'i defnyddiwyd gan Gyngor Gwynedd wrth drafod cynyddu premiwm treth ailgartrefi. Anfonwyd copi at bawb er gwybodaeth.
 - vii) ***Crynodeb o Brif Ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfer y Sector Cynghorau Cymuned a Thref***
Copi, er gwybodaeth. Anfonir at bawb.
- b) **AHNE Llŷn – Cronfa Datblygu Gynaliadwy**
Daw'r cylch cyntaf i ben ar Fawrth 24ain – penderfynwyd ymgeisio am y system talu digyffwrdd a pheiriannau talu newydd ar gyfer y toiledau; gweler cofnod 6b) uchod.
- c) **Safe-Speed – Community Safety System**
Gwahoddiad i weminar a gynhelir ar Fawrth 16eg.
- ch) **Cyngor Tref Nefyn – Baw Cŵn**
Derbyniwyd llythyr, fel Cynghorau Llanbedrog a Phwllheli, yn gofyn am sylwadau ar y posibilrwydd o gyd-gyflogi warden cŵn ac, efallai, ysbwriel oherwydd y broblem baeddu a fodola ar hyn o bryd. Cafwyd trafodaeth fanwl a mynegwyd mai trigolion lleol ydi'r 'troseddwy'r' gwaethaf erbyn hyn (h.y. o ran baw cŵn yn bennaf), gan nad oes ymwelwyr yma fel y cyfryw. Penderfynwyd, er yn cytuno mewn egwyddor, y buasai'n anodd ei weithredu oherwydd maint Pen Llŷn, e.e. y gallai bod mwy o alw mewn un ardal na'r llall a'r gost. Awgrymwyd, hefyd, efallai y buasai'n haws cyfrannu i Gyngor Gwynedd gyflogi warden ychwanegol. Ychwanegodd Cyng. Dewi W. Roberts fod ganddo gyfarfod â Phennaeth yr Adran yr wythnos nesaf – trafoda'r awgrym â hi hefyd.
- d) **Adran Drwyddedu – Cais am Drwydded Eiddo: Black Sheep, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
Derbyniwyd hysbysiad o'r uchod – angen sylwadau erbyn Mawrth 30ain – a llythyrau gwrthwynebu oddi wrth drigolion lleol er gwybodaeth hefyd. Mae'r bwyty'n fwy o far ac am greu diwylliant newydd tu allan i ganol y pentref a allasai greu mwy o broblemau anghymdeithasol. Gofynnwyd a oes angen cais cynllunio ar gyfer newid defnydd, h.y. y lle parcio'n ardd yfed/bwyta – cysylltir â'r Adran Gynllunio i holi.

Penderfynwyd ysgrifennu at yr ymgeisydd i fynegi siomedigaeth yn yr enw o gofio mai pentref Cymraeg a Chymreig yw Aber-soch ac nad yw'n cyfleu hynny.

17. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C20/0989/39/CC	Cais i dorri coeden (Cypreswydden Monterey) sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed – Tir ger Royal Garage, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/1046/39/DT	Estyniadau ac addasiadau – Sandpiper, Lôn Rhoslyn, Aber-soch – Gwrthod
C20/1047/39/DT	Cais Diwygiedig – Estyniadau ac addasiadau – Corner House, Lôn Golff, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C21/0017/39/HY	Arwyddion ffasgia a chrog – Aber House, Stryd Fawr, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C21/0032/39/DT	Addasiadau i deras/balconi blaen, ynghyd â chodi estyniad a chreu ardal allanol ar y cefn – Tideways, Lôn Pen Cei, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C21/0043/39/LL	Creu ardal eistedd allanol wedi'i orchuddio – Uned 1, The Haven, Lôn Garmon, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C21/0094/39/DT	Estyniad i adeilad cawodydd presennol – Deucoch Camping and Touring Site, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau

18. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Mawrth (Rh/S 002349) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

- a) Bacstal PAC – £119.64 (D/U – Gwasanaeth Paratoi Cyflogau hyd at Fedi 30ain, 2020)
- b) E-on – £21.16 (D/U – Cyflenwad Trydan y Toiledau)
- c) Emyr Jones – £80.00 (Rh/S 002348 – Ailosod Goliau Cae Chwarae Mynytho)
- ch) Siôn Hughes – £4600.00 (Rh/S 002350 – Torri'r Foel a Strimio Llain y Pentref)

Derbyniadau

- a) G.D. Roberts a'i Fab, Ymgymerwr – £290.00 (Bedd Newydd)

19. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Ebrill 14eg, 2021 am saith o'r gloch ar **Zoom**